**Kirsty Williams AS/MS**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref Deiseb P-05-999
Ein cyf/Our ref KW/04316/20

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau

3 Awst 2020

Annwyl Janet

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 27 Gorffennaf, ynghylch y ddeiseb a gyflwynwyd gan Laura Denise Keighan.

Ddydd Gwener, cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru y byddai'r sefyllfa o ran plant dan 11 oed yn gorfod cynnal pellter o 2m oddi wrth ei gilydd neu oddi wrth oedolion yn cael ei llacio o ddydd Llun 3 Awst. Mae’r dystiolaeth wyddonol yn dangos bod y risg o drosglwyddo’r feirws yn is o fewn y grŵp oedran hwn. Gwyddom fod y risg i blant eu hunain o fod yn ddifrifol wael yn sgil COVID-19 yn isel iawn. Mae’r dystiolaeth gyfredol yn nodi bod haint SARS-CoV-2 yn effeithio’n ysgafnach ar blant nag ar oedolion: bod symptomau’r rhan fwyaf o blant sy’n cael eu heintio yn ysgafn iawn, os oes ganddynt symptomau o gwbl, ac mai ychydig iawn sy’n datblygu afiechyd difrifol neu sy’n peryglu eu bywyd. Mae yna ychydig ansicrwydd o hyd i ba raddau y mae plant yn trosglwyddo’r feirws, ond o arsylwi’r hyn sydd wedi digwydd wrth agor ysgolion yn Lloegr ac mewn gwledydd eraill, ni welwyd arwyddion ei fod yn cael ei drosglwyddo ryw lawer gan blant.

Mae’n rhaid cydbwyso’r risgiau hyn yn ofalus ag effeithiau iechyd negyddol peidio â mynd i’r ysgol. Mae’r ysgol hefyd yn bwynt cyswllt pwysig o ran gwasanaethau iechyd cyhoeddus a diogelu sy’n hanfodol i les plant a theuluoedd. Bydd y newidiadau hyn hefyd yn golygu y gall plant ifainc gwrdd â’u ffrindiau i chwarae yn yr awyr agored neu roi coflaid i’w mam-gu a’u tad-cu.

Fodd bynnag, mae plant yn dal i orfod dilyn y cyfyngiadau eraill o ran cyswllt grwpiau teuluol ac ati. Rhaid cydbwyso’r risg i’r rheini sy’n byw gyda’r plant hyn ac yn gofalu amdanynt, sy’n debygol o fod angen dod i gysylltiad corfforol â nhw fel rhan o’u gofal bob dydd. Mae’n dal i fod angen i blant gadw at y cyfyngiadau cymdeithasol o ran cwrdd â grwpiau teuluol eraill

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

neu gynulliadau ehangach, a chyfrifoldeb y rhieni o hyd yw asesu a gwerthuso’r risgiau o ran cyswllt teuluol a chymdeithasol eu plant. Yn yr un modd, bydd plant yn parhau i weithio mewn grwpiau yn yr ysgol i warchod ac ystyried iechyd oedolion, gan gynnwys athrawon a’r gymuned ehangach.

O fis Medi, bydd ysgolion ar agor i bob disgybl, a chyhoeddwyd canllawiau gweithredu i’w helpu i baratoi ar gyfer tymor yr hydref. Rydym hefyd yn cydnabod, wrth baratoi ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd, ac ar gyfer y posibilrwydd o ail gyfnod clo, fod angen rhyw fath o ddull dysgu cyfunol. Mae’r canllawiau dysgu yn darparu arweiniad ar ddatblygu cyfuniad o ddysgu yn yr ysgol a’r tu allan i’r ysgol wrth edrych i’r dyfodol. Wrth lunio’r ddwy ddogfen ganllaw hon, ystyriwyd cyngor diweddaraf adroddiad y Grŵp Cynghori Technegol a gyhoeddwyd ar 7 Gorffennaf.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro’r sefyllfa yn ofalus, a bydd angen i bob ysgol hefyd gynllunio ar gyfer cyfnod clo lleol posibl a sut y byddant yn sicrhau dilyniant yn yr addysg o fewn fframwaith o gyfyngiadau lleol.

Yn y cyfamser, rwy’n gobeithio bod y penderfyniadau rydym wedi’u gwneud, ac yn fwy diweddar mewn perthynas â phlant cynradd yn benodol, yn dangos ein hymrwymiad i gefnogi ein holl ddysgwyr yn ystod y cyfnod heriol hwn.

Yn gywir



**Kirsty Williams AS/MS**
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education